# Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd & Môn





## Y Diweddaraf

Mae'r broses paratoi'r Cynllun yn mynd yn ei flaen yn dda. Daeth cyfnod ymgynghori diweddar am y fersiwn Adnau o'r Cynllun i ben ar 31 Mawrth 2015. Derbyniwyd tua 1,700 o sylwadau unigol amdano gan unigolion, grwpiau a mudiadau. Mae'r holl sylwadau wedi'u cofnodi mewn cofrestr. Byddwn yn cydnabod eu bod nhw wedi cael eu cofrestru yn ystod mis Awst 2015. Mae gwaith wedi dechrau i baratoi'r camau nesaf angenrheidiol i symud y Cynllun yn ei flaen.

**Cam 1** → **Creu adroddiad sylwadau**

**Cam 2** → **Y Cynghorau yn gwneud penderfyniad am y sylwadau**

## Camau Nesaf i Fabwysiadu'r CDLl ar y Cyd

Mae pedwar cam arall pwysig i'w cymryd cyn y gellir mabwysiadu'r CDLl. Mae'n bwysig bod y Cynghorau yn dal i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar y camau hyn a'ch bod yn cael eich cynnwys ar hyd y ffordd. Ar bob un o'r pedwar cam isod byddwch yn cael eich hysbysu drwy lythyr, e-bost, neu trwy dderbyn rhifyn o'r Newyddlen. Bydd Rhybudd Cyhoeddus yn ymddangos mewn papurau newydd lleol, os bydd y Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol yn dweud bod angen gwneud hynny. Os bydd dogfennau i'w gweld byddwn yn rhoi gwybod i chi ble gallwch weld y dogfennau perthnasol a sut y medrwch wneud sylwadau arnynt (os oes angen sylwadau). Nodwch y dyddiadau ar gyfer bob cam, edrychwch ar bapurau newydd lleol ar yr amser hwnnw a chwiliwch ar wefan y Cynghorau www.gwynedd.gov.uk/cdll **neu** www.ynysmon.gov.uk/cdll. Os oes amheuaeth, cysylltwch ag aelod o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd y Newyddlen yma.

**Beth yw hwn?** Mae crynodeb o'r holl sylwadau a dderbyniwyd ar y Cynllun Adnau wedi cael eu rhoi mewn adroddiad. Bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ei weld ac nid i wneud sylwadau arno. Bydd yr adroddiad ar gael i'w weld ar wefan y ddau Gyngor, yn y llyfrgelloedd cyhoeddus, swyddfa'r Gwasanaeth Cynllunio yn Llangefni, Siopau Gwynedd, a swyddfa'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd **o ddiwedd mis Awst 2015 ymlaen**. Bydd llyfrgell sy'n cynnwys copi caled o'r holl sylwadau cyflawn a dderbyniwyd i'w gweld yn swyddfa'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd **o ddiwedd mis Awst 2015 ymlaen.** Bydd modd gwneud cais i'r Uned i dderbyn copi caled neu electronig o sylwadau cyflawn unigol. Bydd y Cynghorau yn delio â'r holl sylwadau a dderbyniwyd ar y Cynllun, yn ddiweddarach dan Gam 2.

**Beth mae hyn yn golygu?** Bydd yr holl sylwadau a dderbyniwyd am y Cynllun Adnau a'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'w cefnogi yn cael eu dadansoddi'n ofalus gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd. Ar ôl i'r gwaith dadansoddi gael ei gwblhau bydd adroddiad a fydd yn awgrymu pa gamau sydd angen eu cymryd yn cael ei pharatoi. Bydd yr adroddiad yna'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd **ym mis Ionawr 2016** er mwyn iddo wneud penderfyniad am sut i ymateb i'r sylwadau cyn symud ymlaen i Gam 3.

## Camau Nesaf i Fabwysiadu'r CDLl ar y Cyd

**Cam 3**

**Cyflwyno'r CDLl ar y Cydar gyfer Archwiliad Cyhoeddus**

**Beth mae hyn yn golygu?** Unwaith bydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi cytuno ar sut i ymateb i'r sylwadau, bydd nifer o ddogfennau yn cael eu cyflwyno ym mis **Chwefror 2016** i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Cynllunio ar gyfer archwiliad annibynnol.

Dyma pryd fydd Arolygydd Cynllunio yn asesu'r holl sylwadau a dderbyniwyd i'r Cynllun a'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'w cefnogi, ac unrhyw newidiadau a gynigiwyd gan y Cynghorau i benderfynu a yw'r Cynllun yn un cadarn. Os fydd y Cynghorau wedi argymell newidiadau byddant yn cael eu dangos mewn atodiad i'r Cynllun Adnau, a fydd yn rhan o'r pecyn dogfennau a gaiff eu cyflwyno i'r Arolygiaeth Cynllunio.

Bydd yr Archwiliad Cyhoeddus yn cynnwys cyfres o Wrandawiadau, a fydd yn rhoi cyfle i'r Arolygydd drafod y prif faterion gydag unigolion sydd wedi gwneud sylwadau am y Cynllun Adnau.

Gallai'r Arolygydd argymell newidiadau i bolisi, baragraffau neu safleoedd ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd i gefnogi gwrthwynebiadau.

**Cam 4**

**Derbyn adroddiad rhwymol gan yr Arolygiaeth Cynllunio a mabwysiadu'r Cynllun**

**Beth mae hyn yn golygu?** Bydd y Cynghorau yn disgwyl derbyn penderfyniad yr Arolygiaeth Cynllunio, mewn dogfen o'r enw Adroddiad Rhwymol, o fewn 12 mis ar ôl dechrau Cam 3. Bydd penderfyniad yr Arolygydd yn derfynol ac mae disgwyl i'r Cynghorau wneud yr holl newidiadau i'r Cynllun cyn ei fabwysiadu'n ffurfiol **tua Ionawr/ Chwefror 2017**. Bydd y Cynllun yna'n cael ei fonitro bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn gwneud cyfraniad positif at ddiwallu anghenion ardaloedd cynllunio Gwynedd a Môn.

## Darganfod Mwy

I gael rhagor o wybodaeth am y broses y CDLl ar y Cyd, gan gynnwys manylion am y dogfennau CDLl ar y Cyd a gyhoeddwyd yn barod, ewch i'n gwefan:

www.gwynedd.gov.uk/cdll
www.ynysmon.gov.uk/cdll

Gallwch gysylltu â'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd drwy:

polisicynllunio@gwynedd.gov.uk

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
Llawr 1af
Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor
Ffordd Gwynedd
BANGOR
Gwynedd.  LL57 1DT

(01286) 685003 / 679533 / 679668

**Os nad ydych ar ein cronfa ddata, ac yn dymuno cael eich cynnwys, cysylltwch â'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.**